# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 7fed 2024 yn Neuadd Mynach. Yn bresennol oedd Dewi Pritchard (cadeirydd), Alwyn Jones, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwynedd Jones, Gwenda Evans, Rita Jones, Eifion Davies, Iolo V. Evans, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Morris.

Yn dilyn eu phrofedigaethau diweddar, cydymdeimlwyd a Gwenda Morris ac Eifion Davies. Llongyfarchwyd Bethan Thomas ar benblwydd phriodas arbennig.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion a dderbyniwyd yn y cyfarfod diwethaf:-
i) Arwydd plant yn croesi ger Capel Cwmtirmynach – roedd archeb wedi ei anfon i'r gweithlu i osod arwydd newydd.
ii) Roedd y ffordd drwy bentref Llandderfel wedi derbyn clytwaith.
iii) Roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi trefnu i lanhau'r cwlfat ar y ffordd rhwng Ysgol Ffridd y Llyn a Llandderfel ac am adnewyddu'r pyst du a gwyn.

b) Gwelliannau i'r mynwentydd.
Adroddodd y clerc ei bod wedi cwrdd â swyddogion y Parc Cenedlaethol ac roeddynt yn cynnig coeden ywen a gwrychoedd ar gyfer mynwent Frongoch. Awgrymwyd y dylai'r Cyngor dorri'r coed llarwydden wrth y ffordd fawr gan fod eu cyflwr yn dirywio. Roeddynt wedi awgrymu cwmni lleol a fyddai'n gallu gwneud y gwaith yma ac roedd y clerc wedi derbyn pris ganddynt. Yn ddiweddar roedd y clerc wedi gorfod trefnu i dorri cangen un o'r coed a oedd wedi dechrau disgyn dros y ffordd fawr (taliad i Tom Edwards am y gwaith bris i'w gymeradwyo isod). Diolchwyd i Alwyn Jones am ei gymorth gyda'r gwaith brys yma. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i ail drafod torri'r coed yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

c) Cyfarfod lleol yr Heddlu.
Cafwyd adroddiad gan Alwyn Jones o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn.
i) Cynllun Trafnidiaeth Gymunedol.

b) Cyngor Gwynedd.
i) Fframwaith Adfywio Ardal Ni – copi draft o'r Cynllun Adfywio Lleol a gwahoddiad i gyfarfod ar y 20/05/24 I'w drafod ymhellach.
ii) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd.
iii) Gwaharddiad Trafnidiaeth trwodd dros dro – Cwmtirmynach.

c) Parc Cenedlaethol.
i) Rhybudd cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer rheoli'r defnydd o dai preswyl.

ch) Un Llais Cymru.
i) Contract cyflogaeth newydd i staff – cytunwyd i'w adolygu yn nes ymlaen yn y flwyddyn.
ii) Adroddiad Blynyddol: Amserlen Camau.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..

d) Amrywiol.
i) Awdurdod Tan ac Achub Gogledd Cymru - lansio ymghynghoriad cyhoeddus ar barhau i atal ac ymateb i argyfyngau.
ii) Cyngor Tref Nefyn – cais am gefnogaeth i wrthwynebu bwriad Cyngor Gwynedd i wario £1 miliwn ar geir trydan.
iii) Elusen Ambiwlans Awyr Cymru – adolygiad Gwasanaeth EMRTS.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-
i) C24/0239/04/RC – Cais i ddiddymu cytundeb 106. Melin Meloch, Llanfor.
ii) C24/0179/04/TR – Adnewyddu y linell drydan o Llangywer i Lanfor.

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i wrthwynebu cais Melin Meloch gan fod y cynghorwyr yn cytuno'n gryf yn amcanion a phwrpas Cytundeb 106 a dim yn credu y dylai gael ei diddymu.

**vi) Materion Ariannol.**

a) Archwiliad Blynyddol.
Eglurodd y Clerc fod cyfrifon 2023-24 yn destun archwiliad llawn ac roedd trefniadau mewn lle i anfon y dogfennau perthnasol i'r archwilwyr mewnol ac yn ddiweddarach i Archwilio Cymru.

b) Taliadau.
Cytunwyd i dalu –
i) AJG Community Schemes (yswiriant)
ii) Sion Jones (torri glaswellt y mynwentydd)
iii) Tom Edwards (gwaith brys i dorri cangen ym mynwent Frongoch)
iv) Clerc (ad-daliad – meinciau newydd i'r mynwentydd)
v) Noel Lloyd (adnewyddu meinciau pentref Llanfor)

Adroddodd y clerc fod y taliad olaf i Tom Edwards wedi cael ei wneud ym mis Ebrill (gwaith torri coed, grant Clocaenog a chafwyd ei gymeradwyo ym mis Mawrth). Cytunwyd i awrdurdodi'r clerc i dalu Sion Jones am ei waith rheolaidd o dorri glaswellt yn y mynwentydd pan fydd yn derbyn ei anfonebau.

c) Ceisiadau ariannol.
Derbyniwyd ceisiadau gan St John's Ambulance, Eisteddfod Llangollen a Kids Cancer Charity. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**vii) Materion lleol.**
a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-
i) Llanast wedi ei dipio ar y ffordd rhwng Tŷ Isaf a'r Tollgate, Glanrafon.
ii) Cangen yn dod drosodd i'r ffordd ger Cynlas Bach, Cefnddwysarn a hefyd ar y A494 ger Tŷ Nant.
iii) Dŵr yn llifo ar wyneb y ffordd a thwll yn y tarmac ger Crogen. Gofynnwyd i'r clerc holi hefyd os oedd unrhyw ddiweddariad ynglyn â'r cwynion am y garreg yn dod allan i'r ffordd gerllaw.
iv) Sbwriel ar ochr y A494, Bethel.
v) Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau pryd oedd yr Asiantaeth Cefnffyrdd yn bwriadu cychwyn trwsio'r ffordd ym Methel.
vi) Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Clwb Carafanau Crynierth i ofyn iddynt dorri'r coed wrth y fynedfa.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mehefin 4ydd am 7.30 y.h. yn Neuadd Mynach.



Arwyddwyd: ……………………………………………. Dyddiad: …………………………………..